



CANLLAWIAU AC AMODAU FFUFLEN GRANT RAS YR IAITH

A. CANLLAWIAU

- Gofynnir i chi ddarllen y daflen hon a llenwi'r **ffurflen cais** am grant.
- Cofiwch gynnwys gopi o **fantolen ddiwethaf cyfrif banc a chyfansoddiad** eich cymdeithas neu sefydliad.
- Os oes unrhyw gwestiwn cysylltwch â ni- manylion isod.
- Os bydd eich cais yn llwyddiannus yna byddwn yn danfon ffurflen fer arall atoch i'w llenwi wedi i arian eich grant gael ei wario yn profi i chi wario'r arian yn ôl amodau'r grant.

B. AMODAU

Mae gan Ras yr Iaith hyd at **£12,000** i'w roi allan ar ffurf grant. **Dyddiad Cau 12pm Dydd Gwener y 3ydd o Chwefror 2017.**

Mae rhai amodau:

1. £750 fydd uchafswm grant unigol i unrhyw gymdeithas.
2. £50 fydd lleiafswm unrhyw grant.
3. Rhaid i arian y grant fod ar gyfer hyrwyddo'r iaith Gymraeg.
4. Rhaid i'r gymdeithas neu ddigwyddiad sy'n elwa o'r grant fod o fewn dalgylch agos i'r ardaloedd ble gynhaliwyd y Ras yng Ngorffennaf 2016, sef:

Yn y Gogledd: Bangor, Bethesda, Llanrwst, Blaenau Ffestiniog, Y Bala, Dolgellau, Machynlleth.

Ceredigion: Aberystwyth, Tregaron, Llanbedr Pont Steffan, Aberaeron, Ceinewydd, Llandysul, Castellnewydd Emlyn, Aberteifi

Sir Benfro, Sir Gaerfyrddin a Castell Nedd Port Talbor: Crymymch, Arberth, Dinbych-y-Pysgod, San Clêr, Caerfyrddin, Rhydaman, Brynaman, Llanymddyfri, Llandeilo

5. Rhaid gwario'r arian cyn diwedd 31ain o Rhagfyr 2017.
6. Ni yw'r arian grant i'w dalu am nwyddau neu deunydd sydd wedi eu talu amdanynt cyn derbyn y grant.
7. Croesewir ceisiadau am grant gan gymdeithasau neu digwyddiadau sydd eisoes mewn bodolaeth ond rhoir ystyriaeth arbennig i ddigwyddiad newydd neu gymdeithas sy'n hyrwyddo'r Gymraeg mewn ffordd arbennig neu pau llai ei defnydd e.e.:
 - a. Digwyddiad torfol newydd
 - b. Er budd hyrwyddo'r Gymraeg ymysg pobl ifanc
 - c. Er budd hyrwyddo'r Gymraeg ymysg rhan o gymdeithas nad sydd fel rheol yn derbyn cefnogaeth gan y Gymraeg neu nad sydd efallai wedi bod yn rhan o brif-ffrwd diwylliant Gymraeg
8. Bydd angen dangos sut ceir gwaddol o'r grant h.y. nad digwyddiad 'one off' yn unig ydyw. Ni roddi grant fel gwobr mewn cystadleuaeth.
9. Wrth dderbyn y grant byddwch yn cydsynio i Rhedadeg Cyf, Y Mentrau Iaith a Ras yr Iaith ddefnyddio'r wybodaeth ac unrhyw ddelweddau er mwyn hyrwyddo Ras yr Iaith mewn unrhyw ffordd, unrhyw gyfrwng (print, we, Facebook ayyb) ac unrhyw le.
10. Wrth dderbyn yr arian byddwch yn cytuno i Rhedadeg Cyf, Mentrau Iaith Cymru a Ras yr Iaith hysbysu'r wasg a'r cyfryngau o'ch grant.
11. Wrth dderbyn y grant byddwn yn disgwyl i chi roi cydnabyddiaeth i Ras yr Iaith ac Mentrau Iaith Cymru ar lafar ac ar ffurf logo os bydd hynny'n addas. Gofynnwn i chi hefyd hysbysu pobl o'ch llwyddiant gyda'r grant ar ffurf stori i'r wasg (e.e. papur lleol, papur bro, cylchlythyr) a'r cyfryngau cymdeithasol (e.e. gwefan newyddion, tudalen Facebook) gyda dolen i dudalen wefan, Facebook neu Twitter Ras yr Iaith.

Edrychwn ymlaen i dderbyn eich cais am grant Ras yr Iaith! **Cofiwch mai 12pm dydd Gwener y 3ydd o Chwefror 2017 yw'r dyddiad cau. Mae croeso i chi gysylltu â ni os oes unrhyw gwestiwn.**

Siôn Jobbins
Rhedadeg Cyf
'Ty Nant'
Rhiw Briallu
Llanbadarn Fawr
ABERYSTWYTH SY23 3SE
Ffôn: 07816 86 78 21
Ebost: post@rasyriaith.org

Neu

Iwan Hywel
Mentrau Iaith Cymru
Y Sgwar
Llanrwst
CONWY LL26 0LG

Ffôn: 01492 643 401
iwanhywel@mentrauiath.cymru

Gweinyddir grant Ras yr Iaith gan Rhedadeg Cyf, cwmni nid-er-elw. Rhif 07319257.

